Pwnc dan Sylw -Gofalu am Bobl â Dementia mewn Lleoliadau Gofal Aciwt

Nyrsys Cyffredinol Cofrestredig / Cynorthwywyr Gofal Iechyd

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys tri modiwl ac yn cael ei gyflwyno dros ddau ddiwrnod. Nodwyd saith maes allweddol y gellid eu gwella wrth ofalu am bobl â dementia.

Sef:

1 Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad staff o ddementia

2 Profiad adrannau damweiniau ac achosion brys

3 Gwell sgrinio ac asesu

4 Hybu amgylchedd ysbyty sy'n gyfeillgar i bobl

5 Hybu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

6 Ystyried effaith ein hagweddau a'n ffyrdd o drin pobl â dementia

7 Cynllunio gofal â dementia mewn golwg

Modiwl 1 - Dull Gweithredu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Modiwl 2 - Cyfathrebu sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Modiwl 3 - Asesu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Lluniwyd yr hyfforddiant hwn i fod yn rhyngweithiol, mae'n cynnwys darnau fideo, trafodaeth ac elfen o ddysgu. Mae'r hyfforddiant hwn yn hyblyg, felly pe bai angen mynd i'r afael yn fanylach ag agweddau penodol ar ofal, er enghraifft, deall deliriwm a'i effaith ar ofal (fel yr amlinellir ef yng Nghynllun Gweithredu Dementia Cymru), yna mae'r pecyn yn caniatáu ar gyfer hyn.

Y pris cyfredol ar gyfer dau ddiwrnod o hyfforddiant - £1100 – gan gynnwys yr holl ddefnyddiau.